# Y Pwyllgor Darlledu

## Cofnodion (BCC(3)-01-08)

**Dyddiad: 14 Ebrill 2008**
**Amser: 1.30pm – 3.32pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Peter Black, Gorllewin De Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Chris Reading, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Cymru, Ofcom
Ian Hargreaves, Uwch Bartner, Cyfarwyddwr Gweithredol, yr Ysgrifenyddiaeth a'r Rhanbarthau, Cenhedloedd, Rhyngwladol a Chyfreithiol, Bwrdd Ofcom
Sue Balsom, Aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom dros Gymru
Simon Gibson, Prif Weithredwr Wesley Clover Corporation, Cadeirydd Inuk Networks ac Aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom
Aled Eirug, Cynghorydd y Pwyllgor

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd

1.1 Dechreuodd y clerc y cyfarfod drwy ofyn am enwebiadau am Gadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 10.18

1.2 Enwebwyd Alun Davies a'i ethol yn Gadeirydd.

### 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 3: Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y pwyllgor i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

Papur: CC(3)-01-08 (p.1) - Ofcom
Papur: CC(3)-01-08 (p.2) - Ofcom
Cyflwyniad llafar - Inuk Networks ar y newid i'r digidol

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd Ofcom i ddarparu copi o lythyr i'r pwyllgor a anfonwyd at Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch memorandwm o ddealltwriaeth arfaethedig rhwng Ofcom a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd Ofcom yn cyflwyno nodyn ynghylch materion ariannol, er mwyn ategu'r wybodaeth sydd i'w chael yn ei ail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Cytunodd Ofcom i anfon y tair dalen ffeithiau a baratowyd i roi gwybod i bobl am y dewisiadau sydd ar gael iddynt mewn perthynas â newid i'r digidol.

Gwahoddodd Simon Gibson y pwyllgor i ymweld â swyddfa Inuk Networks yn Abercynon i gael gweld sut mae'r dechnoleg a gyfeiriwyd ati yn ei gyflwyniad yn gweithio. Bydd y clerc yn gwneud y trefniadau priodol.